**ATODIAD A**

## CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| **RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** | **2024/25 £'000** |
| **Cynlluniau Asedau'r Cyngor :** | | | |
| Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif | 3,861 | 3,854 | 2,901 |
| Cynlluniau Tai | 4,435 | 1,300 | 1,300 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes | 1,750 | 0 | 0 |
| Cartrefi/ Canolfannau Oedolion | 1,611 | 625 | 0 |
| Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol | 1,193 | 1,640 | 2,271 |
| Atal Llifogydd Arfordirol | 1,995 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Eraill | 3,831 | 1,628 | 1,241 |
| Bidiau Cyfalaf | 500 | 500 | 500 |
| **Cynlluniau Eraill :** | | | |
| Adnoddau Grant Cyfalaf Cyffredinol Ychwanegol i'w ddyrannu | 270 | 1,646 | 1,646 |
| Dadgarboneiddio | 0 | 917 | 917 |
| Strategaeth Dai – Cronfa Premiwm Treth y Cyngor | 0 | 0 | 2,549 |
| Strategaeth Dai - Prynu i Osod | 0 | 0 | 2,880 |
| Cynlluniau Eraill Eisoes wedi eu Cymeradwyo : | | | |
| Cynlluniau/Strategaeth Tai | 11,617 | 5,430 | 0 |
| Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif (LIC) | 11,026 | 455 | 0 |
| Atal Llifogydd Arfordirol | 4,993 | 0 | 0 |
| Cerbydau Adrannol | 4,017 | 947 | 0 |
| Unedau Diwydiannol | 2,925 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Eiddo | 1,331 | 0 | 0 |
| Eraill | 3,720 | 300 | 0 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | **59,075** | **19,242** | **16,205** |

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

| ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF | | | |
|---|---|---|---|
| | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** | **2024/25 £'000** |
| Benthyca Gyda Chefnogaeth | 4,073 | 4,073 | 4,073 |
| Benthyca Arall | 3,791 | 3,289 | 2,880 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 18,722 | 5,347 | 5,100 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 750 | 0 | 0 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 34 | 0 | 0 |
| Cronfa Cyfalaf | 9,345 | 204 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 22,360 | 6,329 | 4,152 |
| **CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN** | **59,075** | **19,242** | **16,205** |

4. Sefydlwyd strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.

5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu proffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2022/23 ymlaen.

6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2022/23 i 2024/25, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.

7. Mae'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn uwch yn 2022/23 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau. Mae'n fwriad dod ag adroddiad dilynol gerbron y Cabinet i adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Asedau a sicrhau'r defnydd o'r adnodd ychwanegol hwn.

8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £59,074,980 ar gyfer 2022/23, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.